GWASANAETHAU OFFTHALMIG CYFFREDINOL CYMRU (GOCC)

# LLAWLYFR GWASANAETH: GOCC 3

# GOLWG GWAN A THYSTYSGRIF NAM AR Y GOLWG CYMRU (CVIW)

Fersiwn 2.0:  Dyddiad gweithredu:  11/06/2025

Mae'r Llawlyfr Clinigol hwn gyda gweithdrefnau gweithredu safonol yn amlinellu’r strwythur sy'n caniatáu cyflawni GOCC 3 a 2 ar gyfer Contractwyr a Chyflawnwyr.

Mae’n cefnogi’r gwaith o gyflawni GOCC 3 er mwyn sicrhau unffurfiaeth o ran disgwyliadau i bobl Cymru.

Nid yw'n cymryd lle barn na chyfrifoldeb proffesiynol.

**Dolenni defnyddiol:**

| | |
|---|---|
| Sut i gofrestru i ddarparu GOCC | https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/wgos/gweithiwr-iechyd-llygaid-proffesiynol/sut-i-gofrestru-i-gynnig-wgos/ |
| Ymholiadau am hyfforddiant, cyrsiau ac asesiadau | heiw.optometrylowvision@wales.nhs.uk |
| Ymholiadau clinigol ac ymholiadau am daliadau a chofrestru | nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk |
| Tîm Golwg Gwan PCGC | low.vision@wales.nhs.uk |
| Porth Perspctif Cyngor Cymru i’r Deillion (WCB) | https://wcb-ccd.org.uk/perspectif |

**Rhybudd:**

Efallai nad dyma'r fersiwn ddiweddaraf os gwnaethoch chi lawrlwytho neu argraffu'r ddogfen.

Ewch i https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/ i gael y fersiwn gyfredol.

Annwyl Gydweithiwr Proffesiynol,

Bydd y llawlyfr hwn yn ganllaw i'ch helpu i ymgysylltu a darparu gwasanaeth GOCC er budd pobl Cymru. Rydym yn sylweddoli na all yr un llawlyfr byth fod yn gwbl gynhwysfawr, ac rydym yn ymddiried ynoch i ddefnyddio eich profiad a'ch barn mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.

Fel eich Arweinydd Clinigol Cenedlaethol GOCC rydym yn deall y gall bod yn weithiwr iechyd a gofal proffesiynol fod yn llawn straen. Mae cymorth ar gael i chi neu eich cydweithwyr os oes effaith ar eich iechyd a'ch llesiant meddyliol.

Yn garedig,

Rebecca John / Mike George / Tim Morgan
Arweinydd Clinigol GOCC Cenedlaethol National GOSW Clinical Lead
Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Primary Care Services
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru NHS Wales Shared Services Partnership

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

| Cymorth Iechyd Meddwl |
|---|
| **Weithiau, mae angen help arnom ar unwaith.**<br>**Mewn argyfwng, ffoniwch GIG 111 (Dewiswch opsiwn 2)**<br>**Gallwch hefyd gael cymorth mewn argyfwng trwy eich Meddyg Teulu.** |
| **Cymorth Arall** |
| **C.A.L.L. Llinell Gymorth Iechyd Meddwl ar gyfer Cymru**<br>Yn darparu gwasanaeth iechyd meddwl 24/7 i Gymru gyfan. Mae CALL yn cynnig cymorth emosiynol, cyfeirio at asiantaethau sy'n berthnasol i anghenion y galwr yn ogystal â llenyddiaeth am ddim.<br>Ffoniwch 0800 132 737 neu tecstiwch HELP i 81066<br>www.callhelpline.org.uk |
| **SHOUT - Gwasanaeth cymorth drwy neges destun**<br>Gwasanaeth neges destun sydd ar gael 24/7, am ddim ar bob rhwydwaith symudol mawr i rai mewn argyfwng, unrhyw bryd, yn unrhyw le. |

| |
|---|
| 📞 Tecstiwch FRONTLINE i 85258 |
| **Y Samariaid**<br>Bydd gwirfoddolwr o'r Samariaid yn gwrando heb farnu ac yn cynnig cymorth cyfrinachol am ddim.<br>📞 Cymraeg: 0808 164 0123. (7pm - 11pm)<br>📞 Saesneg: 116 123 (24/7) |
| **Gwasanaeth Cwnsela Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA).**<br>Gall pob meddyg a myfyriwr meddygol gael mynediad at y gwasanaeth hwn gan Gymdeithas Feddygol Prydain.<br>Nid oes rhaid i chi fod yn aelod o Gymdeithas Feddygol Prydain i gael mynediad at y gwasanaeth hwn.<br>📞 0330 123 1245 |
| **DAN 24/7 Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru**<br>Yn darparu gwasanaeth cyffuriau ac alcohol 24/7 i Gymru gyfan. Mae DAN yn cynnig cymorth emosiynol, cyfeirio at asiantaethau sy'n berthnasol i anghenion y galwr yn ogystal â llenyddiaeth am ddim.<br>📞 0808 808 2234/ tecstiwch DAN i 81066 |

# Cynnwys

W.1 Gwybodaeth am Wasanaeth GOCC 3 ....... 6

W.2 Cytundeb Gwasanaeth a Chymhwysedd Practis GOCC 3 ....... 7

*W.2.1 Diwygiadau i Gytundeb Gwasanaeth GOCC 3 ....... 7*

*W.2.2 Cyfrifoldebau'r Contractwr sy'n Trefnu ....... 8*

*W.2.3 Cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd ....... 9*

W.3 Cymhwysedd cleifion ar gyfer GOCC 3 yn seiliedig ar breswylfa ....... 10

W.4 Cyflenwi Gwasanaeth GOCC 3 ....... 10

*W.4.1 Dirprwyo ....... 10*

*W.4.2 Gofal o bell ....... 10*

*W.4.3 Gofal rhithwir ....... 11*

W.5 Gwasanaethau Symudol ....... 12

W.6 Offer ....... 13

**ADRAN 1: Golwg Gwan GOCC 3 ....... 13**

3.1 Golwg Gwan GOCC 3 (Asesu ac Apwyntiadau Dilynol) ....... 13

3.2 Canllawiau'r Gwasanaeth ....... 14

3.3 Cymhwysedd a Hyfforddiant Cyflawnwyr: ....... 14

3.4 Gwasanaeth Golwg Gwan GOCC 3 - Cymhwysedd Cleifion ....... 15

3.5 Trosolwg o Asesiad Golwg Gwan GOCC 3 ....... 16

*Archwiliad Asesiad Golwg Gwan ....... 17*

3.6 Trosolwg o'r Apwyntiad Golwg Gwan Dilynol ....... 18

*Archwiliad Golwg Gwan Dilynol ....... 19*

3.7 Darparu gwasanaeth holistaidd ....... 19

3.8 Cwympiadau ....... 20

3.9 Sgrinio am Iselder ....... 20

*Atgyfeiriadau brys ....... 21*

*Cydsynio i atgyfeiriad mewn sefyllfaoedd brys ....... 21*

3.10 Syndrom Charles Bonnet (CBS) ....... 22

3.11 Lensys Peli: Canllawiau i Gyflawnwyr; $40^{\Delta}$ Fresnel Press-ons wedi'u torri ymlaen llaw 22

3.12 Rhagnodi Cymhorthion Golwg Gwan (LVAs) ....... 24

*Lensys Peli ....... 25*

3.13 Ailgylchu a Dychwelyd Cymhorthion Golwg Gwan ....... 26

3.14 Cymhorthion golwg gwan newydd a rhai sydd heb eu casglu ....... 26

3.15 Hawlio Taliad ....... 27

*Asesiadau Symudol ....... 27*

**ADRAN 2: Tystysgrif Nam ar y Golwg GOCC 3 .......................................... 28**

3.16 Ardystiad Nam ar y Golwg GOCC 3 .................................................................... 28

3.17 Meini Prawf Cymhwysedd Ardystio Cleifion ................................................................ 28

*Canllawiau ar gyfer Pobl ag Amhariad Difrifol ar eu Golwg (SSI)........................................... 28*

*Canllawiau ar gyfer Amhariadau Difrifol ar y Golwg (SI) ..................................................... 28*

3.18 Ardystio mewn Gofal Sylfaenol......................................................................... 29

3.19 Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Llwybr Ardystio Clinigol....................................... 29

*Rhan A: Adnabod cleifion cymwys.......................................................................... 29*

*Rhan B: Gwneud ardystiad mewn gofal sylfaenol (Optometryddion Achrededig GOCC 1, 2 a 3) 30*

3.20 Hawlio Taliad............................................................................................ 32

*Mae'r claf yn cael ei ardystio gan Optometrydd .................................................................. 32*

*Asesiad ardystio archwiliad ociwlar (Nid yw'n arwain at ardystiad claf gan Optometrydd) .. 32*

# W.1 Gwybodaeth am Wasanaeth GOCC 3

Ar hyn o bryd mae GOCC 3 yn cynnwys:

- Asesiadau Golwg Gwan ac Apwyntiadau Dilynol GOCC 3 a
- Thystysgrifau Nam ar y Golwg Cymru (CVIW) GOCC 3

Mae GOCC 3 yn defnyddio Optometreg Gofal Sylfaenol i leihau'r galw hanesyddol mewn ysbytai drwy reoli cleifion sydd angen gwasanaethau adsefydlu golwg gwan. Mae'n llwybr a ariennir gan y GIG sy'n seiliedig ar ofal sylfaenol i ddarparu asesiadau golwg gwan, cymorth golwg gwan a Thystysgrifau Nam ar y Golwg (CVIW). Darperir y gwasanaeth GOCC 3 yn gyfan gwbl mewn Gofal Sylfaenol gyda'r Cyflawnwyr sy'n cyflawni'r gweithgarwch GOCC 3 yn gyfrifol am y canlyniad.

Mae darparu'r gwasanaeth GOCC 3 wedi'i ategu gan Gyfarwyddiadau Deddfwriaethol. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cyfeirio at 'Gontractwr sy'n Trefnu'. At ddiben y llawlyfr hwn, defnyddir y termau 'Contractwr sy'n Trefnu' a 'Phractis' yn gyfnewidiol. Mae hyn yn cwmpasu safleoedd sefydlog a darparwyr symudol, a'r Cyflawnwyr sy'n darparu oddi mewn iddynt.

Mae Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi sydd wedi cwblhau cymwysterau uwch perthnasol ac wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol GOCC 3 penodol i'r gwasanaeth (Y Tŷ Dysgu) yn gallu darparu gwasanaeth GOCC 3 ar gyfer Contractwyr sy'n Trefnu sydd â'r cytundeb(au) gwasanaeth GOCC 3 perthnasol.

Yn ogystal, er mwyn darparu Tystysgrif Nam ar y Golwg (CVIW), mae'n rhaid i'r Cyflawnydd a'r Practis y maent yn darparu GOCC 3 ohono fod wedi eu rhestru ar gyfer darparu gwasanaeth GOCC 1 a 2 gorfodol a bodloni'r gofynion hynny.

Ar hyn o bryd mae GOCC 3 yn cynnwys:

- Asesiadau Golwg Gwan ac Apwyntiadau Dilynol GOCC 3
- Thystysgrifau Nam ar y Golwg Cymru (CVIW) GOCC 3

Er mwyn gallu parhau i gyflwyno GOCC 3, mae'n ofynnol i Gyflawnwyr gynnal eu cymhwysedd yn y maes ymarfer hwn, sy'n cynnwys DPP hunan-arweiniol, a chwblhau hyfforddiant gorfodol (yn cynnwys Diogelu Oedolion a Phlant Lefel 1 a 2 bob 3 blynedd) ac yn ôl yr angen mewn ymateb i anghenion y gwasanaeth.

Rhaid i Gyflawnwyr GOCC 3 roi tystysgrif cofnod troseddol fanwl i'r Bwrdd Iechyd o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 mewn perthynas â hwy, os bydd Bwrdd Iechyd ar unrhyw adeg, am achos rhesymol, yn rhoi hysbysiad iddynt ddarparu tystysgrif o'r fath.

Rhaid i Gyflawnwyr GOCC 3 gadw cofnodion, gwneud hawliadau am daliadau a chymryd rhan mewn archwiliadau yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023.

# W.2 Cytundeb Gwasanaeth a Chymhwysedd Practis GOCC 3

*Er mwyn darparu GOCC 3, rhaid i'r Contractwr sy'n Trefnu gael Cytundeb Gwasanaeth GOCC 3 gyda'r Bwrdd Iechyd i gyd-fynd â'r lleoliad y mae'r gwasanaeth yn mynd i gael ei ddarparu ynddo.*

*Er mwyn darparu GOCC 3 yn wasanaeth symudol, rhaid i'r Practis gael Cytundeb Gwasanaeth Symudol GOCC 3 gyda'r Bwrdd Iechyd i gyd-fynd â'r lleoliad y mae'r gwasanaeth yn mynd i gael ei ddarparu ynddo.*

*Rhaid i Gontractwyr sy'n Trefnu sicrhau bod gan y Cyflawnydd sy'n darparu gwasanaeth GOCC 3 ar eu rhan y cymhwyster a'r hyfforddiant a restrir ar gyfer darparu'r gwasanaeth.*

*Mae Contractwyr sy'n Trefnu a Chyflawnwyr yn atebol am holl weithredoedd a hegporiadau staff sy'n gweithio dan eu goruchwyliaeth.*

*Rhaid i bractisiau hysbysu'r Bwrdd Iechyd am y Cyflawnwyr y maen nhw'n eu cyflogi.*

*Rhaid i Gontractwyr sy'n Trefnu a Chyflawnwyr gadw eu gwybodaeth gofrestredig yn gyfredol.*

*Er mwyn dod â chytundeb gwasanaeth GOCC 3 i ben, rhaid i'r Contractwr sy'n Trefnu roi o leiaf dri mis o rybudd i'r Bwrdd Iechyd.*

Rhaid i Bractisiau sy'n dymuno darparu gwasanaeth GOCC 3 wneud cais i'r Bwrdd Iechyd priodol i gael ei gynnwys fel darparwr GOCC 3. Rhaid i'r Contractwr sy'n Trefnu gydymffurfio â'r llawlyfr clinigol hwn.  Rhaid i bob Contractwr sy'n Trefnu gael Cytundeb Gwasanaeth GOCC 3 gyda phob Bwrdd Iechyd y maent yn dymuno darparu gwasanaethau ynddo.

Mae'n rhaid i Bractis sy'n darparu GOCC 3 o safle sefydlog ac sydd hefyd yn darparu GOCC 3 mewn lleoliad symudol fod â Chytundeb Gwasanaeth Symudol GOCC 3.

Mae Cytundeb Gwasanaeth yn manylu ar y trefniant rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Contractwr sy'n Trefnu ar gyfer darparu GOCC 3 yn unol â'r Cyfarwyddiadau Deddfwriaethol.  Mae dogfennaeth y Cytundeb Gwasanaeth ar gael yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd perthnasol.

### W.2.1 DIWYGIADAU I GYTUNDEB GWASANAETH GOCC 3

Rhaid i Gontractwyr sy'n Trefnu hysbysu'r Bwrdd/Byrddau Iechyd y mae ganddynt Gytundeb Gwasanaeth GOCC 3 â nhw am newidiadau perthnasol yn eu hamgylchiadau nhw neu amgylchiadau eu staff, yn enwedig newidiadau i'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cais gwreiddiol neu wybodaeth a gyhoeddwyd amdanynt.  Mae cyfnodau hysbysu gwahanol yn berthnasol mewn amgylchiadau gwahanol (gweler y tabl am enghreifftiau o ba bryd y mae angen hysbysu'r Byrddau Iechyd a'r amserlen):

| Rhaid hysbysu Byrddau Iechyd pan fydd: | Cyfnod hysbysu |
|---|---|
| • Newidiadau i'r datganiad a wnaed gan y Contractwr sy’n Trefnu<br>e.e. euogfarn droseddol, rhybudd, cael ei gyhuddo o drosedd, ymchwiliad gan ei gorff trwyddedu a chanlyniad unrhyw ymchwiliad, ymchwiliad gan y Gwasanaeth Atal Twyll ac unrhyw ganlyniad, ymchwiliad gan Fwrdd Iechyd Lleol arall a allai arwain at ei dynnu oddi ar restr, neu os yw wedi cael ei dynnu, ei dynnu’n amodol neu ei atal o unrhyw restr gyfatebol arall, neu y gwrthodwyd mynediad iddo, neu y cafodd ei gynnwys yn amodol ar unrhyw restr gyfatebol arall | 7 diwrnod |
| • Newid i’r cais cyn dyfarnu Cytundeb Gwasanaeth GOCC 3 iddo | 7 diwrnod |
| • Newid(iadau) neu ychwanegiad(au) sy'n effeithio ar y manylion ar Restr Offthalmig Cymru | 14 diwrnod |

Rhaid rhoi gwybod i'r Bwrdd Iechyd am unrhyw darfu sylweddol ar ddarpariaeth GOCC 3, er enghraifft oherwydd salwch, ac eithrio ar gyfer gwyliau statudol.

## W.2.2 CYFRIFOLDEBAU’R CONTRACTWR SY’N TREFNU

Rhaid i Gontractwyr sy’n Trefnu fodloni gofynion gorfodol GOCC 1 a 2 wrth ddarparu Gwasanaethau GOCC 3, yn unol â Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023, yn cynnwys:

- Cyflogi staff i gyflawni GOCC 3. Rhaid i holl staff y contractwr sy'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaeth GOCC 3 gwblhau’r canlynol yn llwyddiannus:
  - Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru - canllaw;
  - Hyfforddiant ar offer miniog a chael gwared arnynt, yn cynnwys atal a rheoli heintiau;
  - Hyfforddiant Gwella Ansawdd ; a
  - Hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC)

  gan yr holl staff sy'n cynorthwyo'r Contractwr sy’n Trefnu i ddarparu'r gwasanaeth GOCC 3.
- Ymgynghoriadau o bell;
- Mynediad at GOCC 3;
- Y Ddyletswydd Gonestrwydd;
- Pecyn Ansawdd GOCC (y Pecyn Cymorth Ansawdd ar gyfer Optometreg, Mewnwelediadau Gwasanaeth ac Adrodd ar y Gweithlu)
- Sicrhau Ansawdd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i adolygiadau perfformiad, adolygiadau gan gymheiriaid, mentora ac archwiliadau; a
- Hyfforddiant Diogelu Plant ac Oedolion Lefel 1 a 2.

I ddod â Chytundeb Gwasanaeth GOCC 3 i ben, rhaid i'r Contractwr sy’n Trefnu roi o leiaf 3 mis o rybudd i'r Bwrdd Iechyd, er y gellir lleihau’r cyfnod hwn trwy gytundeb ar y cyd.

Pan fydd Practis yn dymuno adleoli ei eiddo i leoliad gwahanol, rhaid rhoi o leiaf 3 mis o rybudd i'r Bwrdd Iechyd, er mewn achosion eithriadol, e.e. llifogydd yn y practis, gellir gwneud y cyfnod hwn yn fyrrach trwy gytundeb ar y cyd.

## W.2.3 CYFRIFOLDEBAU'R BWRDD IECHYD

Bydd Byrddau Iechyd yn gyfrifol am gydlynu'r gwasanaeth hwn yn lleol, yn cynnwys dewis Cyflawnwyr ar gyfer hyfforddiant gwasanaeth wedi'i ariannu gan y GIG.

Bydd Bwrdd Iechyd yn ceisio barn y Pwyllgor Optometrig Rhanbarthol ar gyfer ei ardal wrth ystyried gofynion sylfaenol o ran argaeledd. Mae hyn yn cynnwys effaith y gofynion hyn ar Gyflawnwyr GOCC 3 sydd newydd gymhwyso a Chyflawnwyr GOCC 3 sydd o bosibl yn gweithio mewn practisiau gwahanol ar ddiwrnodau gwahanol.

Bydd Byrddau Iechyd yn ymgysylltu â Phractisiau a Chyflawnwyr ar Ansawdd ar gyfer Optometreg (sicrhau ansawdd) yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i adolygiadau perfformiad, adolygiadau gan gymheiriaid, mentora ac archwiliadau.

Bydd rheoli perfformiad yn cael ei arwain gan y Byrddau Iechyd gyda chymorth lle bo angen gan yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol. Bydd hyn yn briodol i'r pryderon a gyflwynir ac yn unol â'r prosesau ansawdd a diogelwch cleifion a sefydlwyd gan Fyrddau Iechyd ar gyfer contractwyr a Chyflawnwyr annibynnol mewn gofal sylfaenol. Gall ymyriadau i gefnogi Practisiau/Cyflawnwyr gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: codi pryderon gyda'r Practis/Cyflawnydd; nodi a chwblhau hyfforddiant; adolygiad gan gymheiriaid; a/neu fentora. Bydd y Bwrdd Iechyd yn penderfynu os/pan nad oes angen ymyriad mwyach. Gall methu â chymryd rhan yn yr ymyriad a awgrymwyd gan y Bwrdd Iechyd arwain at dynnu'n ôl y gymeradwyaeth ar gyfer darparu gwasanaeth GOCC 3.

Gall Byrddau Iechyd dynnu'n ôl y gymeradwyaeth ar gyfer darpariaeth gwasanaeth GOCC 3 oddi wrth Gontractwyr sy'n Trefnu neu Gyflawnwyr sy'n methu â bodloni gofynion gorfodol a/neu nad ydynt yn cydymffurfio â llawlyfr GOCC 3. Dim ond mewn ymateb i bryderon ynghylch diogelwch cleifion neu ddarpariaeth gwasanaeth y bydd cymeradwyaeth yn cael ei thynnu'n ôl.

Bydd perfformiad Cyflawnwyr a Chontractwyr sy'n Trefnu GOCC 3 yn y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro drwy ddilysu cyn talu ac archwiliad clinigol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'r Bwrdd Iechyd perthnasol a all arfer ei bwerau presennol o dan reoliadau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol yn ôl yr angen mewn achosion o berfformiad gwael.

Bydd Byrddau Iechyd yn sicrhau bod eu llwybrau GOCC 3, yn cynnwys grwpiau cymorth, gwasanaethau cymdeithasol, sefydliadau trydydd sector, cwympiadau, cymorth iechyd meddwl brys, gwasanaethau addysgol a chyflogaeth, ar gael i bractisiau Optometreg ac yn darparu diweddariadau yn ôl yr angen.

Bydd Byrddau Iechyd yn cyhoeddi canllawiau lleol yn ymwneud â'r dull atgyfeirio, yn gynnwys manylion Cyflawnwyr GOCC 3 a'u hargaeledd ar gyfer atgyfeiriadau.

# W.3 Cymhwysedd cleifion ar gyfer GOCC 3 yn seiliedig ar breswylfa

Mae GOCC 3 ar gael i'r canlynol:

- Pobl sy'n byw yng Nghymru a/neu
- Pobl sydd ar restr practis meddyg teulu yng Nghymru, ar yr amod eu bod yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf cymhwysedd clinigol.

I gael eu hystyried yn breswylydd yng Nghymru ac felly'n gymwys ar gyfer GOCC 3, rhaid i unigolion fod yn byw yng Nghymru ar sail gyfreithlon a sefydlog.

Dim ond mewn cyfeiriadau yng Nghymru y gellir cyflawni Gwasanaethau Symudol GOCC 3, p'un ai yw'r claf ar restr practis meddyg teulu yng Nghymru ai peidio.

# W.4 Cyflenwi Gwasanaeth GOCC 3

## W.4.1 DIRPRWYO

Ni ddylai Cyflawnwyr GOCC 3 ddirprwyo unrhyw ran o GOCC 3, gan gynnwys i Optometryddion / Optegwyr Cyflenwi, Optometryddion Cyn-gofrestru / Optegwyr Cyflenwi Cyn-gofrestru neu Optometryddion sy'n Fyfyrwyr / Optegwyr Cyflenwi sy'n Fyfyrwyr.

Ni chaiff Optometryddion GOCC 3 ddirprwyo unrhyw ran o asesiad Tystysgrif Nam ar y Golwg Cymru (CVIW). Mae hyn yn cynnwys i Optegwyr Cyflenwi GOCC 3, Optometryddion nad ydynt wedi'u cymeradwyo i ddarparu GOCC 3 neu Optometryddion Cyn-gofrestru. Ni all Optometryddion Cyn-gofrestru ardystio amhariad ar y golwg.

Gall Cyflawnwyr GOCC 3 oruchwylio Optometryddion Cyn-gofrestru yn uniongyrchol wrth gynnal Asesiad Golwg Gwan. Rhaid i'r Cyflawnydd GOCC 3 fod yn bresennol yn yr un ystafell a chymryd cyfrifoldeb am y cyfnod gofal, yn cynnwys cwblhau a llofnodi'r cerdyn cofnod GOCC 3. RHAID i'r Optometrydd Cyn-gofrestru BEIDIO â chynnal profion sgrinio am iselder na CVIW.

## W.4.2 GOFAL O BELL

Mae gofal o bell yn digwydd pan gynhelir yr archwiliad mewn amser real, ond nid yw'r claf a'r Cyflawnydd yn yr un ystafell.

Ni ellir cynnal apwyntiadau GOCC 3 o bell.

Gall y Cyflawnydd gymryd manylion am yr hanes a'r symptomau a brysbennu i asesu'r brys cyn ymweliad o bell. Rhaid cwblhau apwyntiadau GOCC 3 mewn ymgynghoriad wyneb yn wyneb, lle mae'r claf a'r Cyflawnydd yn yr un ystafell. Dylai'r Cyflawnydd ddefnyddio ei farn broffesiynol i benderfynu a yw er budd gorau'r claf i gynnig cymryd hanes blaenorol ar gyfer apwyntiad GOCC 3 o bell.

## W.4.3 GOFAL RHITHWIR

Mae gofal rhithwir yn digwydd pan nad yw'r Cyflawnydd â chyfrifoldeb clinigol yn bresennol ar yr un pryd â'r claf sy'n cael asesiad.  Nid yw'n adolygu canlyniadau'r asesiad mewn amser real ac nid yw o reidrwydd yn cyfleu ei ganfyddiadau yn uniongyrchol â'r claf ond yn hytrach gall anfon llythyr neu e-bost, neu adael neges llais.

Ni ellir darparu gwasanaeth GOCC 3 yn rhithwir.

# W.5 Gwasanaethau Symudol

Er mwyn darparu GOCC 3 fel gwasanaeth symudol, rhaid i'r Contractwr sy'n Trefnu feddu ar Gytundeb Gwasanaeth GOCC 3 gyda'r Bwrdd Iechyd i gyd-fynd â'r lleoliad y mae'r gwasanaeth yn mynd i gael ei ddarparu ynddo.

Mae gan gleifion hawl i wasanaeth symudol os ydynt yn gleifion GOCC 3 cymwys y mae eu hamgylchiadau sy'n ymwneud â'u salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd yn ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol iddynt gael gwasanaethau offthalmig sylfaenol mewn lleoliad cofrestredig.

Rhaid i'r Cyflawnydd GOCC 3 atgyfeirio'r claf at Gyflawnydd GOCC 3 arall os nad yw'n gallu darparu gwasanaeth symudol pan fo angen un.

Os nad yw claf yn bodloni'r meini prawf uchod ond yn dymuno i wasanaeth symudol gael ei gyflawni, gall Cyflawnydd GOCC 3 y mae gan ei Gontractwr sy'n Trefnu Gytundeb Gwasanaeth gyda'r Bwrdd Iechyd y mae'r lleoliad lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn gysylltiedig ag ef, ddarparu apwyntiad mewn lleoliad symudol a hawlio'r ffi briodol am Asesiad Golwg Gwan neu Apwyntiad Golwg Gwan Dilynol, ond ni fydd modd hawlio ffi symudol.

Dim ond yng Nghymru y gellir darparu gwasanaethau GOCC 3 symudol, ni waeth a yw'r claf ar restr practis meddyg teulu yng Nghymru ai peidio.

Rhaid i'r rheswm dros fod angen gwasanaeth symudol gael ei gofnodi yng nghofnod y claf.

Gall Practis ddim ond hawlio GOCC 3 fel gwasanaeth symudol os:

- oes ganddo Gytundeb Gwasanaeth GOCC 3 gyda'r Bwrdd Iechyd perthnasol;
- yw'r claf neu ei ofalwr yn gofyn am wasanaeth symudol; ac os yw
- amgylchiadau'r claf mewn perthynas â'i salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd yn ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol iddo gael gwasanaethau offthalmig sylfaenol mewn mangre gofrestredig.

Cyfrifoldeb y claf neu ei ofalwr yw rhoi rheswm pam fod angen gwasanaeth symudol ar y claf, nid cyfrifoldeb y Cyflawnydd. Rhaid dogfennu hyn ar y cerdyn cofnod. Nid yw termau fel 'caeth i'r tŷ', 'ansymudol', 'caeth i gadair olwyn' neu 'preswylydd cartref' yn ddigonol.

Ni ellir darparu gwasanaeth GOCC 3 mewn Ysbytai, Carchardai nac unedau diogel. Mae darparu gofal llygaid yn y lleoliadau hyn y tu allan i gwmpas GOCC 3, ac efallai bod gan fyrddau iechyd eu trefniadau eu hunain ar gyfer gofal yn y lleoliadau hynny.

Ni ellir cyflwyno gwasanaeth GOCC 3 mewn Ysgolion Arbennig.

Nid oes angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw i ddarparu gwasanaeth symudol. Fodd bynnag, dylai'r Cyflawnydd allu cyfiawnhau'n rhesymol pam y cafodd ei gynnal, a rhaid i'r rheswm dros yr asesiad symudol gael ei nodi'n glir ar gofnod y claf.

## W.6 Offer

Mae angen set safonol o offer ar gyfer darparu Golwg Gwan GOCC 3

Rhaid i'r set lawn o offer golwg gwan fod ar gael i Gyflawnwyr lle bynnag y maent yn darparu'r asesiadau golwg gwan, yn cynnwys pan gânt eu darparu mewn lleoliad symudol.

Mae Tîm Golwg Gwan PCGC yn cadw cofrestr o offer wedi'i ariannu. Cyfrifoldeb yr unigolyn a enwir (y Contractwr sy'n Trefnu neu'r Cyflawnydd) yw:

- Bod yn gyfrifol am yr offer a'i gynnal a'i gadw
- Rhoi gwybod i'r Tîm am newid mewn amgylchiadau a/neu eitemau offer.

Bydd nifer y cleifion a welir fesul Contractwr sy'n Trefnu yn cael ei adolygu gan Arweinydd Clinigol Cenedlaethol GOCC yn flynyddol. Pan fo llai na phum Asesiad Golwg Gwan neu Apwyntiad Dilynol GOCC 3 o fewn cyfnod o 12 mis wedi'u cynnal, efallai y bydd gofyn i'r Contractwr sy'n Trefnu ddychwelyd yr offer a ariannwyd gan y GIG fel y gellir ei ddefnyddio yn rhywle arall.

Pan fydd Practis yn prynu ei offer golwg gwan ei hun, rhaid iddo ddatgan ei fod yn bodloni manyleb offer golwg gwan safonol GOCC 3. Cyfrifoldeb y Contractwr sy'n Trefnu yw cynnal a chadw'r offer a gwneud newidiadau yn ôl yr angen yn unol ag unrhyw newidiadau i'r fanyleb.

# ADRAN 1: Golwg Gwan GOCC 3

## 3.1 Golwg Gwan GOCC 3 (Asesu ac Apwyntiadau Dilynol)

Nod y gwasanaeth yw cefnogi'r rhai sydd ag amhariad ar y golwg trwy ddarparu cymorth golwg gwan, cyfeirio at wasanaethau eraill a chynnig gwybodaeth am fywyd bob dydd a chyflyrau llygaid. Mae'r gwasanaeth ar gael i bob claf cymwys, a bydd gymhorthion golwg gwan a ragnodir yn cael eu darparu ar sail benthyciad trwy GIG Cymru.

3.1.1 Rhaid cynnig atgyfeiriad i bob claf sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y gwasanaeth. Mae cleifion o bob oed yn gymwys i gael mynediad at y gwasanaeth gan fod cymhwysedd yn seiliedig ar angen clinigol.

3.1.2 Mae cleifion yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth pan fyddant wedi cael Archwiliad Llygaid GOCC 1, archwiliad GOCC2 Band 1 a arweiniodd at roi presgripsiwn optegol, neu Brawf Golwg Preifat yn y flwyddyn ddiwethaf (gellir cwblhau hyn yn syth cyn yr Asesiad Golwg Gwan neu'r Apwyntiad Dilynol) **a** bod gan y claf o leiaf un o'r canlynol ar adeg yr asesiad:

- Craffter golwg pellter yn y ddau lygad o 6/12 neu waeth;
- Craffter golwg agos o N6 neu waeth gydag ychwanegiad darllen o +4.00;

- Amhariad ar y golwg a/neu amhariad sylweddol yn y maes golwg; neu
- Ardystiad Nam ar y Golwg (SI) neu Amhariad Difrifol ar y Golwg (SSI).

3.1.3 Mae rhestr o Gyflawnwyr achrededig i'w gweld ar wefanPerspectif.

## 3.2 Canllawiau'r Gwasanaeth

GOCC 3: Darperir y gwasanaeth Golwg Gwan gan Optometryddion / Ymarferwyr Meddygol Offthalmig (YMPs) / Optegwyr Cyflenwi (DOs) sydd wedi'u rhestru ar restr GIG Cymru ac sydd wedi'u hachredu trwy fodloni'r gofynion yn 3.3, Cymhwysedd a Hyfforddiant Cyflawnwyr.

3.2.1 Y Cyflawnydd sydd wedi'i achredu i ddarparu gwasanaeth GOCC 3 Golwg Gwan. Rhaid i'r Practis y darperir y gwasanaeth ohoni gael cytundeb gwasanaeth gyda'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfeiriad lle darperir y gwasanaeth/neu gytundeb gwasanaeth symudol.

3.2.2 Darperir gwasanaethau Golwg Gwan GOCC 3 trwy Asesiadau Golwg Gwan, ac Apwyntiadau Golwg Gwan Dilynol.

3.2.3 Gellir darparu Asesiadau Golwg Gwan ac Apwyntiadau Dilynol GOCC 3 mewn Practis Optometreg neu mewn lleoliad symudol yng Nghymru.

3.2.4 Rhaid i'r Cyflawnydd hysbysu Tîm Golwg Gwan PCGC am ba bractis(au) y mae'n darparu'r gwasanaeth ynddynt. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i daliadau gael eu gwneud ac yn caniatáu ar gyfer cynllunio a monitro'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth.

3.2.5 Dylai unrhyw Gyflawnydd neu Gontractwr sy'n Trefnu Golwg Gwan GOCC 3 a restrir fel rhai sy'n cynnig y gwasanaeth allu cynnig apwyntiad i unigolyn cymwys o fewn pythefnos i'r dyddiad y mae'r claf yn ymholi am y gwasanaeth neu'n cael ei atgyfeirio ato.

3.2.6 Os na ellir cynnig apwyntiad o fewn amserlen sy'n addas ar gyfer anghenion y claf, rhaid atgyfeirio'r claf, neu ailgyfeirio'r atgyfeiriad i, bractis lle gellir cynnig apwyntiad i ddiwallu'r anghenion hynny.

## 3.3 Cymhwysedd a Hyfforddiant Cyflawnwyr:

3.3.1 I gael ei achredu:

- Rhaid i'r Optometrydd fod â Thystysgrif Broffesiynol Coleg yr Optometryddion mewn Golwg Gwan, neu
- Rhaid i Ymarferwyr Meddygol Offthalmig (YMOs) ac Optegwyr Cyflenwi (DOs) fod wedi cwblhau'r modiwlau ôl-raddedig sy'n cyfateb i ddyfarniad cymhwyster Tystysgrif Broffesiynol mewn Golwg Gwan Coleg yr Optometryddion yn llwyddiannus.

Yn ogystal, rhaid i'r Optometrydd/YMP/DO gwblhau modiwlau gorfodol penodol i'r gwasanaeth a gyflwynir trwy Gwella Addysg Iechyd Cymru, yn cynnwys:

- Iselder
- Cwympiadau
- Lensys Peli; a
- Golwg Gwan GOCC 3 a phrosesau CVIW
- Diogelu Oedolion a Phlant Lefel 1 a 2 (gofynnol bob 3 blynedd)

3.3.2 Mae hefyd yn ofynnol i Optegwyr Cyflenwi sy'n dymuno darparu'r gwasanaeth gwblhau:

- Patholeg Oedolion; a
- Phatholeg Plant.

3.3.3 Rhaid i Gyflawnwyr GOCC 3 roi tystysgrif cofnod troseddol fanwl i'r Bwrdd Iechyd o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 mewn perthynas â hwy, os bydd Bwrdd Iechyd ar unrhyw adeg, gydag achos rhesymol, yn rhoi hysbysiad iddynt ddarparu tystysgrif o'r fath.

3.3.4 Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn darparu nifer cyfyngedig o leoedd a ariennir ar gyfer achrediad Golwg Gwan GOCC 3 yn flynyddol. Dyfernir y lleoedd hyn mewn partneriaeth â Byrddau Iechyd ac Arweinydd Clinigol Cenedlaethol GOCC, gan roi blaenoriaeth i feysydd gwasanaeth lle ceir angen.  Lle bo angen, darperir offer golwg gwan.

3.3.5 Gall Cyflawnwyr hunan-ariannu'r hyfforddiant i ddarparu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, nid oes sicrwydd y byddai'r offer golwg gwan yn cael ei ariannu gan GIG Cymru, ac efallai y bydd yn ofynnol i'r Cyflawnydd dalu am yr offer golwg gwan sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r manylebau. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r pecyn yn unol â newidiadau i'r fanyleb.

## 3.4 Gwasanaeth Golwg Gwan GOCC 3 - Cymhwysedd Cleifion

Mae cymhwysedd yn seiliedig ar angen clinigol.  Mae gan bawb sydd ag amhariad ar eu golwg nad yw adferiad llawn, gyda sbectol gonfensiynol neu lensys cyffwrdd, yn bosibl, ac sy'n achosi cyfyngu ar eu bywydau bob dydd hawl i ddefnyddio'r gwasanaeth.

3.4.1 Mae GOCC 3 ar gael i bob claf cymwys sy'n bodloni'r meini prawf preswylio yn W.3, Cymhwysedd cleifion ar gyfer GOCC 3 yn seiliedig ar breswyliaeth, ni waeth beth fo'u hawl i GOCC 1 a 2.

3.4.2 Mae cleifion yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth pan fyddant wedi cael Archwiliad Llygaid GOCC 1, archwiliad GOCC2 Band 1 a arweiniodd at roi presgripsiwn, neu Brawf Golwg Preifat yn y flwyddyn ddiwethaf (gellir cwblhau hyn yn syth cyn yr Asesiad Golwg Gwan neu'r Apwyntiad Dilynol) **a** bod gan y claf o leiaf un o'r canlynol ar adeg yr asesiad:

- Craffter golwg pellter yn y ddau lygad o 6/12 neu waeth;
- Craffter golwg agos o N6 neu waeth gydag ychwanegiad darllen o +4.00;
- Amhariad ar y golwg a/neu amhariad sylweddol yn y maes gweledol; neu
- Ardystiad Nam ar y Golwg neu Ardystiad Amhariad Difrifol ar y Golwg.

3.4.3 Pan fydd claf yn cael ei atgyfeirio at y gwasanaeth naill ai trwy hunanatgyfeiriad neu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol, darparwr gofal a gweithwyr / asiantaethau cymorth eraill, dylai'r Cyflawnydd wirio canlyniadau Archwiliad Llygaid GOCC 1 diwethaf y claf, yr archwiliad GOCC 2 band 1 a arweiniodd at roi presgripsiwn neu'r Prawf Golwg Preifat i gadarnhau cymhwysedd. Os nad yw'r rhain ar gael, dylai'r Cyflawnydd drefnu neu gynnal Archwiliad Llygaid GOCC 1 neu Brawf Golwg Preifat i gadarnhau cymhwysedd cyn cynnal Asesiad Golwg Gwan GOCC 3.

3.4.4 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Cyflawnydd ofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Asesiad Golwg Gwan GOCC 3 i glaf sydd ddim yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd drwy anfon e-bost at Arweinydd Clinigol Cenedlaethol GOCC i: low.vision@wales.nhs.uk. Dylai'r cais amlinellu gwybodaeth berthnasol am yr amhariad ar y golwg, yr anawsterau a brofir gan y claf a'r canlyniad a ddymunir o gynnal yr asesiad. Dylid cynnwys unrhyw wybodaeth ategol sydd ar gael.

## 3.5 Trosolwg o Asesiad Golwg Gwan GOCC 3

Disgwylir i Asesiad Golwg Gwan gymryd rhwng 45-60 munud.

Lle bo'n berthnasol, gellir cynnal archwiliadau eraill ar yr un diwrnod, er enghraifft, Archwiliad Llygaid GOCC 1. Rhaid i'r cerdyn cofnod ar gyfer pob asesiad ddangos tystiolaeth bod holl ofynion pob cyfnod gofal wedi'u cyflawni, a rhaid i'r amser a neilltuwyd i'w gwblhau fod yn ddigonol.

3.5.1 Mae gan y claf hawl i Asesiad Golwg Gwan GOCC 3:

- Wrth ddod i mewn i'r gwasanaeth;
- Pan fydd y claf yn cael ei weld gan bractis am y tro cyntaf a ddim wedi cael asesiad Golwg Gwan o fewn y 12 mis diwethaf;
- Pan, ar ôl cael Archwiliad Llygaid GOCC 1 neu Brawf Golwg Preifat, mae golwg y claf wedi newid yn sylweddol; a/neu
- Bod newidiadau sylweddol yn amgylchiadau personol neu symptomau'r claf.

3.5.2 Dylai'r Cyflawnydd GOCC 3 ddefnyddio ei ddisgresiwn clinigol i gynnal Asesiad Golwg Gwan arall os bernir ei fod yn glinigol angenrheidiol a'i fod er lles gorau'r claf. Mae'r mesurau diogelu arferol o ran gwneud penderfyniadau yn berthnasol a rhaid cofnodi'r rhesymau a'r amgylchiadau perthnasol dros gynnal yr asesiad yn y cofnod clinigol.

3.5.3 Pan nad oes gan bractis unrhyw gofnodion Golwg Gwan hanesyddol ar gyfer y claf, dylai'r Practis gysylltu â Thîm Golwg Gwan PCGC cyn dechrau asesiad. Bydd hyn yn galluogi'r Tîm i roi gwybod i'r Practis pryd y cynhaliwyd asesiad ddiwethaf, a manylion unrhyw offer golwg gwan a roddwyd i'r claf yn flaenorol.

3.5.4 Rhaid cynnal Asesiad Golwg Gwan wyneb yn wyneb, mewn practis neu leoliad symudol, lle mae'r claf a'r Cyflawnydd yn yr un ystafell.

## ARCHWILIAD ASESIAD GOLWG GWAN

3.5.5 Mae Asesiad Golwg Gwan yn ymarferiad datrys problemau nad oes ond un ateb cywir iddo. Mae gan y Cyflawnydd yr hawl i ddefnyddio ei farn broffesiynol i benderfynu ar fformat a chynnwys yr asesiad, ond rhaid ymdrin â'r meysydd ymchwilio a ganlyn a rhoi tystiolaeth ohonynt ar y cofnod clinigol:

3.5.6 Cadarnhau hanes meddygol y claf:

- Hanes ociwlar / gweledol i gynnwys diagnosis (os yw'n hysbys), statws cofrestru (amhariad ar y golwg / amhariad difrifol ar y golwg), cywiriadau optegol cyfredol / dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio
- Statws meddygol presennol – iechyd cyffredinol, meddyginiaeth yn nodi unrhyw amhariad ar y clyw, problemau symudedd / deheurwydd
- Statws cymdeithasol e.e. a yw'n byw ar ei ben eu hun? A yw'n gweithio / mewn addysg? A yw'n gallu gwneud gweithgareddau o ddydd i ddydd fel coginio, darllen yr hyn a ddaw drwy'r post, cymryd ei feddyginiaeth?
- Hobïau
- Cefnogaeth a dderbynnir/ gyrchir ar hyn o bryd

3.5.7 Asesu gweithrediad golwg y claf:

- Craffter golwg pell ac agos neu olwg (wedi'i gofnodi ar fformat LogMAR)
- Yr hyn y gellir ei weld gyda'u hoffer golwg gwan presennol
- Sensitifrwydd Cyferbyniad

3.5.8 Ystyried yr angen am gymorth emosiynol a chymorth gofal yn cynnwys:

- Cwblhau holiadur Offeryn Asesu Risg Cwympiadau (FRAT) (Adran 14) er mwyn cadarnhau lefel risg y claf o gwympo a'i reoli'n briodol (rhaid ei gyflawni ar gyfer pob claf); a
- Sgrinio am iselder (rhaid ei gyflawni ar gyfer pob claf)

3.5.9 Penderfynu pa Gymorth(ion) Golwg Gwan sy'n gweddu i anghenion y claf – gan gofnodi'r Craffter Golwg (VA) a gyflawnwyd.

3.5.10 Rhoi gwybodaeth briodol a pherthnasol i gleifion e.e., gwybodaeth am eu cyflwr llygaid, yr offer sydd wedi'u rhagnodi a gwasanaethau/sefydliadau eraill sydd ar gael iddynt.

3.5.11 Ystyried yr angen am gymorth emosiynol a chymorth gofal a, lle bo'n berthnasol, cynnig, a chyda'u caniatâd, eu hatgyfeirio at asiantaeth arall sydd mewn gwell sefyllfa i ddarparu datrysiad penodol, er enghraifft gofal cymdeithasol neu'r trydydd sector.

3.5.12 Os canfyddir clefyd ociwlar newydd/newid patholeg sydd angen atgyfeiriad, dylid atgyfeirio cleifion yn unol â llwybrau lleol a chenedlaethol.

3.5.13 Lle bo'n briodol, dylid cynnig y dewis i gleifion gael eu hatgyfeirio i gwblhau Tystysgrif Nam ar y Golwg Cymru (CVIW) i dystio bod unigolyn yn gymwys i gael ei gofrestru fel rhywun ag amhariad ar ei olwg (SI) neu amhariad difrifol ar ei olwg (SSI).

3.5.14 Dylid hysbysu cleifion am y manteision iddynt o gael CVI(W), fel y nodir yn rhannol yn Adran 3.16.2. Rhaid darparu'r wybodaeth hon yn annibynnol ar a yw claf yn cael ardystiad a'r lleoliad lle bydd y claf yn cael mynediad at ardystiad.

3.5.15 Mewn partneriaeth â'r claf, dylid cytuno ar ddyddiad yr apwyntiad golwg gwan nesaf lle bo'n briodol, a dweud wrth y claf y gall atgyfeirio ei hun ar gyfer Apwyntiad Golwg Gwan Dilynol pe bai angen hynny arno.

3.5.16 Yn dilyn Asesiad Golwg Gwan, dylid cysylltu â chleifion ddeufis ar ôl iddynt gasglu eu cymhorthion golwg gwan. Mae hyn er mwyn gwirio bod y cymhorthion golwg gwan yn briodol ac yn cael eu defnyddio'n gywir, y gweithredwyd ar atgyfeiriadau a bod unrhyw anghenion newydd yn cael eu nodi. Gellir cynnal y cyswllt hwn dros y ffôn a dim ond os yw'r alwad yn amlygu'r angen am ymchwiliad pellach y mae angen gwneud apwyntiad wyneb yn wyneb (Apwyntiad Golwg Gwan GOCC 3 Dilynol).

3.5.17 Os bydd y claf yn adrodd am symptomau gweledol newydd neu os canfyddir bod yr amhariad ar y golwg wedi lleihau 1 llinell (0.10 LogMAR) o'i gymharu â'r hyn a fesurwyd yn yr Archwiliad Llygaid GOCC 1 neu'r Prawf Golwg Preifat diwethaf, dylid gwneud trefniadau i'r claf gael Prawf Golwg Preifat, Archwiliad Llygaid GOCC 1 neu GOCC 2: Band 1 fel y bo'n briodol.

## 3.6 Trosolwg o'r Apwyntiad Golwg Gwan Dilynol

Disgwylir i archwiliad Golwg Gwan Dilynol gymryd rhwng 15-30 munud.

Rhaid defnyddio'r cerdyn cofnod GOCC 3 wrth gynnal archwiliad dilynol.

3.6.1 Mae archwiliad Golwg Gwan Dilynol yn darparu parhad o Asesiad Golwg Gwan neu Apwyntiad Golwg Gwan Dilynol blaenorol. Mae'r apwyntiad wyneb yn wyneb gyda Chyflawnydd golwg gwan yn ei alluogi i:

- Gadarnhau sut y llwyddodd y claf i ymdopi â'r cymhorthion golwg gwan (LVAs) a mynd i'r afael â phroblemau y daeth ar eu traws;
- Sicrhau mai'r cymhorthion a'r sbectol a roddwyd yw'r rhai mwyaf priodol;
- Rhoi hyfforddiant sylfaenol ar ddefnyddio'r cymhorth(ion);
- Egluro pwyntiau nad yw'r claf wedi'u deall neu a anghofiwyd ar ôl yr asesiad;
- Ystyried a fyddai'r claf yn elwa ar gymorth anghlinigol pellach;
- Mynd i'r afael â phryderon nad oedd gan y Cyflawnydd amser i'w trafod yn ystod apwyntiad blaenorol, e.e. caiff telesgopau eu cyflwyno'n aml ar ôl asesu gallu'r claf i ddefnyddio cymorth golwg gwan syml; a
- Gwirio cynnydd atgyfeirio at asiantaethau eraill.

3.6.2 Gall Apwyntiad Golwg Gwan Dilynol fod:

- *Wedi ei drefnu*

Mae'r apwyntiad yn cael ei drefnu ar ôl cwblhau Asesiad Golwg Gwan neu Apwyntiad Golwg Gwan Dilynol ar adeg a awgrymir gan y Cyflawnydd Golwg Gwan. Bydd Cyflawnwyr fel arfer yn cynnig Apwyntiad Dilynol i gleifion yn flynyddol.

- *Heb ei drefnu*
  Mae'r apwyntiad yn cael ei drefnu pan fydd y Practis yn cael gwybod bod y claf yn cael anawsterau a bod y Cyflawnydd Golwg Gwan yn ystyried ei fod yn glinigol angenrheidiol i'r claf gael Apwyntiad Golwg Gwan Dilynol.

3.6.3 Nid oes cyfyngiad ar nifer yr apwyntiadau Golwg Gwan Dilynol y gall claf eu cael. Mae Cyflawnwyr Golwg Gwan yn rhydd i arfer eu barn glinigol i bennu pa mor aml y mae angen i glaf gael ei weld ar gyfer apwyntiadau dilynol, a bydd yn cofnodi angen clinigol yng nghofnod y claf, lle bo'n briodol.

3.6.4 Rhaid cynnal yr Apwyntiad Golwg Gwan Dilynol wyneb yn wyneb, naill ai yn y practis neu mewn lleoliad symudol, lle mae'r claf a'r Cyflawnydd yn yr un ystafell.

### ARCHWILIAD GOLWG GWAN DILYNOL

3.6.5 Dylai lefel yr archwiliad fod yn briodol i'r rheswm dros yr Apwyntiad Golwg Gwan Dilynol ac anghenion y claf.

3.6.6 Dylid nodi'r camau a gymerwyd yn ystod yr Apwyntiad Dilynol ar y Cerdyn Cofnod Golwg Gwan, a rhoi tic yn y blwch 'Apwyntiad Dilynol'.

3.6.7 Os bydd y claf yn adrodd am symptomau gweledol newydd neu os canfyddir bod yr Amhariad ar y Golwg wedi lleihau 1 llinell (0.10 LogMAR) o'i gymharu â'r hyn a fesurwyd yn yr Archwiliad Llygaid GOCC 1 neu'r Prawf Golwg Preifat diwethaf, dylid gwneud trefniadau i'r claf gael Prawf Golwg Preifat, neu Archwiliad Llygaid GOCC 1 neu GOCC 2: Band 1 fel y bo'n briodol.

## 3.7 Darparu gwasanaeth holistaidd

Dylai pob Cyflawnydd Golwg Gwan GOCC 3 lunio rhestr o wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau addysg, gwasanaethau cyflogaeth a sefydliadau gwirfoddol, llwybrau rhagnodi cymdeithasol byrddau iechyd a sut i atgyfeirio at y rhain. Gellir dod o hyd i wasanaethau ar-lein trwy borth Persbectif Cyngor Cymru i'r Deillion.

3.7.1 Er mwyn ymdrin â holl anghenion cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, efallai y bydd angen atgyfeirio at asiantaethau eraill a rhannu gwybodaeth ag eraill.

3.7.2 Dylai Cyflawnwyr gael sgwrs gefnogol gyda chleifion i drafod y rhesymau dros argymell cyfeirio/atgyfeirio at wasanaethau eraill, a thrwy hynny ganiatáu i'r claf wneud dewis cwbl wybodus ynghylch atgyfeirio.

3.7.3 Dylai Cyflawnwyr nodi'r asiantaethau y mae'r unigolyn yn cael ei atgyfeirio atynt.

## 3.8 Cwympiadau

3.8.1 Dylai Cyflawnwyr ddefnyddio'r holiadur FRAT i'w helpu i bennu lefel y risg o godwm y mae claf yn ei wynebu ac felly helpu i gwblhau'r adran risg o gwympo ar y cerdyn cofnod.

3.8.2 Diffiniad: **Cwymp:** *Digwyddiad lle mae unigolyn yn dod i orffwys ar y llawr neu lefel is arall gyda neu heb golli ymwybyddiaeth (NICE 2004).*

3.8.3 Dylid atgyfeirio cleifion y canfyddir eu bod mewn perygl o gwympo (naill ai drwy sgorio 3 neu uwch ar holiadur FRAT neu yn ôl disgresiwn clinigol y Cyflawnydd) at y Meddyg Teulu neu wasanaethau cwympiadau lleol, lle bo modd.

| **Holiadur FRAT**<br>*(Un pwynt i'w roi am bob ateb 'oes/ydy')* | **Oes/Ydy** | **Nac oes/Nac ydy** |
|---|---|---|
| A oes hanes o godwm yn y flwyddyn flaenorol? | | |
| A yw'r claf yn cymryd pedair meddyginiaeth neu fwy bob dydd? | | |
| A oes gan y claf ddiagnosis o strôc neu Glefyd Parkinson? | | |
| A yw'r claf yn dweud bod ganddo broblemau gyda chydbwysedd? | | |
| A yw'r claf yn cael trafferth codi o gadair sydd ar uchder pen-glin? (Gofynnwch i'r claf sefyll i fyny o gadair sydd ar uchder pen-glin heb ddefnyddio ei freichiau.) | | |
| **Cyfanswm sgôr FRAT** | | |

## 3.9 Sgrinio am Iselder

3.9.1 Dylai pob claf sy’n cael asesiad Golwg Gwan GOCC 3 gael ei sgrinio am iselder drwy ofyn y ddau gwestiwn canlynol: (wedi’u cynnwys ar y Cerdyn Cofnod Golwg Gwan)

a) **Yn ystod y mis diwethaf, ydych chi wedi cael eich poeni yn aml gan deimlo'n ddi-hwyl, yn isel neu'n anobeithiol?**

b) **Yn ystod y mis diwethaf, ydych chi wedi cael eich poeni gan y ffaith nad oes gennych chi fawr o ddiddordeb neu bleser mewn gwneud pethau?**

3.9.2 Os bydd y claf yn ateb 'ydw' i'r naill gwestiwn neu'r llall, dylid ticio'r blwch 'Iselder' yn yr adran 'Risgiau wedi’u Nodi'. Dylid cynnig atgyfeiriad at y Meddyg Teulu hefyd. Os derbynnir

atgyfeiriad at Feddyg Teulu, yna dylid ticio'r blwch 'Atgyfeirio at Feddyg Teulu am iselder' o dan 'Adroddiad/Atgyfeiriad at Asiantaethau Eraill'.

3.9.3 Os yw claf yn gwrthod atgyfeiriad, yna dylid gwneud nodyn o hynny ar y cerdyn cofnod a threfnu apwyntiad dilynol, ac, os yw'r claf yn dal i ateb 'ydw' i un neu'r ddau gwestiwn, dylid cynnig atgyfeiriad unwaith eto.

3.9.4 Pan fydd claf yn ateb 'Ydw' i'r naill gwestiwn neu'r llall, dylai'r Cyflawnydd ystyried a yw'n peri risg i'w ddiogelwch ei hun. Gellir adnabod hyn drwy'r wybodaeth a gynigir i'r claf / teulu / gofalwr. Gellir gofyn i glaf yn uniongyrchol hefyd, er enghraifft '*Ar adegau, pan fydd pobl yn teimlo fel yr ydych chi ar hyn o bryd, efallai y byddan nhw'n dechrau cael meddyliau am hunanladdiad. Ydy hynny'n rhywbeth rydych chi wedi'i brofi?*

## ATGYFEIRIADAU BRYS

3.9.5 Os yw Cyflawnydd yn ystyried bod claf mewn perygl o hunanladdiad, dylai wneud atgyfeiriad brys; gellir gwneud hynny drwy;

- Ffonio'r Meddyg Teulu
- Ffonio'r Tîm Datrys Argyfwng a Thriniaeth Gartref (CRHTT) lleol
- Ffonio Llinell Gymorth Iechyd Meddwl Cymru (GIG 111 CYMRU PWYSO 2)
- Ffonio 999 a gofyn am yr heddlu

## CYDSYNIO I ATGYFEIRIAD MEWN SEFYLLFAOEDD BRYS

3.9.6 Dylid ceisio cydsyniad y claf, os yn bosibl, ond gellir gwneud yr atgyfeiriad heb gydsyniad os yw'r unigolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed.

3.9.7 **Pryd y gellir cael cydsyniad:** Os yw'r claf yn gallu deall a chytuno, dylai'r Cyflawnydd egluro'r angen am atgyfeiriad (e.e., i dîm argyfwng iechyd meddwl) a chael ei gydsyniad.

3.9.8 **Pan na ellir cael cydsyniad:** Os nad yw'r claf yn gallu rhoi cydsyniad (e.e. mae'n rhy ofidus, yn ddryslyd, neu mewn perygl uniongyrchol), gellir gwneud yr atgyfeiriad o hyd heb ei gydsyniad er mwyn sicrhau ei ddiogelwch.

3.9.9 Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol:

3.9.9.1 Yn yr achosion hyn, mae'n gyffredinol dderbyniol i'r Cyflawnydd weithredu er budd gorau'r claf. Dylech chi gofnodi'r sefyllfa a'r rhesymau dros beidio â chael cydsyniad ar gerdyn cofnod y claf.

3.9.9.2 Yn achos plant neu oedolion agored i niwed: Os yw'r claf o dan 16 oed neu'n oedolyn agored i niwed, efallai y bydd angen cynnwys rhiant, gwarcheidwad neu ofalwr, ac efallai y bydd angen eu cydsyniad nhw, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

## 3.10 Syndrom Charles Bonnet (CBS)

3.10.1 Nodweddir Syndrom Charles Bonnet (CBS) gan rithwelediadau gweledol ym mhresenoldeb gweithrediad meddyliol arferol mewn rhai ag Amhariad ar y Golwg.

3.10.2 Dylid dweud wrth gleifion sy'n cyrchu gwasanaeth GOCC 3 am y posibilrwydd o ddatblygu rhithwelediadau gweledol CBS a'u hannog i drefnu apwyntiad GOCC 3 arall y tro cyntaf y byddant yn ymddangos.

3.10.3 Efallai na fydd cleifion nad ydynt yn ymwybodol o CBS yn adrodd symptomau'n ddigymell, er eu bod fel arfer yn ymwybodol nad yw'r rhithwelediadau'n real, gan na fyddant o reidrwydd yn eu cysylltu â'u hamhariad ar y golwg ac efallai y byddant yn poeni eu bod nhw (neu fod pobl eraill) yn meddwl eu bod nhw'n datblygu dementia neu gyflwr iechyd meddwl.

3.10.4 Dylid gofyn i bob claf sy'n cyrchu gwasanaeth GOCC 3 am Symptomau CBS.

3.10.5 Gall cyflyrau fel seicosis, dementia a thiwmorau, yn ogystal â rhai cyffuriau, hefyd achosi rhithwelediadau gweledol. Pan fo ansicrwydd ynghylch achos rhithwelediadau, dylai Cyflawnwyr GOCC 3 atgyfeirio cleifion at eu meddyg teulu i gael ymchwiliadau pellach, yn enwedig os oes gan symptomau'r claf fewnbwn synhwyraidd arall, e.e. clywed lleisiau.

3.10.6 Dylai cyflawnwyr gofio ei bod hi'n bwysig nad yw cleifion ag anhwylder niwrolegol neu seiciatrig ac Amhariad ar y Golwg yn cael eu hanwybyddu fel rhai a allai fod â CBS fel achos symptomau rhithwelediadau gweledol. Dylai Cyflawnwyr hefyd sicrhau bod achosion ociwlar o ffotopsia, e.e. tyniant fitreo-retinol, wedi'u heithrio.

3.10.7 Dylid dweud wrth gleifion â symptomau CBS, er nad oes triniaeth, y gallant eu cael yn llai aml dros amser ac maent yn gallu stopio ymhen amser mewn rhai achosion. Mae posibilrwydd y bydd symptomau'n gwaethygu mewn cyfnodau o ynysu, straen neu gorbryder. Gall Cyflawnwyr GOCC 3 atgyfeirio'r cleifion hyn at wasanaethau cymorth eraill. Gall cleifion (a/neu eu perthnasau/gofalwyr, yn ôl yr angen) gael budd o'r adnoddau ar-lein hyn.

## 3.11 Lensys Peli: Canllawiau i Gyflawnwyr; 40$^{\Delta}$ Fresnel Press-ons wedi'u torri ymlaen llaw

3.11.1 Gall y lens Peli ddarparu ehangiad o hyd at 30° o'r maes gweledol. Mae'r prismau pŵer uchel yn symud gwrthrychau o'r ochr nad yw'n gweld i ochr weld y maes gweledol. Unwaith y bydd yn ymwybodol o'r gwrthrych gall y claf symud ei ben i weld y gwrthrych yn fwy manwl yn y rhan o'r maes gweledol sy'n gweld yn ôl yr angen.

3.11.2 Cleifion Addas

- Cleifion â hemianopia
- Llawn cymhelliant
- Cleifion heb esgeulustod gweledol
- Rhai sydd angen mwy o faes gweledol i gynorthwyo symudedd

3.11.3 Rheoli Disgwyliadau: Mae lensys Peli wedi'u dylunio i ehangu'r maes i helpu cleifion â cholled maes gweledol gyda'u symudedd ac ymwybyddiaeth o rwystrau. Ni fwriedir iddynt gynorthwyo gyda gyrru neu ddarllen. Mae astudiaethau wedi dangos bod tua 50% o gleifion yn dal i ddefnyddio eu lensys Peli ar ôl blwyddyn. Mae cymhelliant uchel ac addysgu cleifion i ddefnyddio'r lensys yn hanfodol i sicrhau'r lefel uchaf posibl o lwyddiant.

3.11.4 Gosod y lensys

- Dylid gosod lensys Peli ar un llygad dros lensys pellter golwg sengl arferol sy'n ffitio'n dda. Os na wisgir sbectol bydd angen pâr cario.
- Glanhewch lensys y sbectol gan roi sylw arbennig i'r arwyneb cefn.
- Marciwch ganol cannwyll y llygad (fel gyda ffitio lens amrywffocal) ar yr ochr hemianopig h.y. os yw'n hemianopia de yna marciwch y lens dde. Ar gyfer hemianopia chwith, marciwch y lens chwith.
- Tynnwch y sbectol oddi ar y claf a gosodwch y templed ffitio ar flaen y lens gan gyfateb dot canol y templed â dot canol cannwyll y llygad sydd wedi'i nodi ar y lens neu
- marciwch flaen lens y sbectol 6mm uwchben a 6mm islaw dot cannwyll y llygad.
- Gosodwch y lensys Peli ar gefn lens y sbectol gyda'r pen pigfain (sy'n dynodi prism)

3.11.5 Hyfforddi Cleifion

- Dylai'r claf bob amser edrych trwy ran ganol y lens ac nid trwy'r lensys Peli gan y bydd hyn yn arwain at weld dwbl.
- Mae'r prismau'n symud gwrthrychau o'r rhan o'r maes gweledol nad yw'n gweld i'r rhan o'r maes sy'n gweld.
- Yna bydd gofyn i'r claf symud ei ben er mwyn gweld y gwrthrych gyda'r rhan o'r maes gweledol sy'n gweld. Bydd angen gwneud y symudiadau hyn yn fwriadol ar y dechrau ond gydag ymarfer dylai ddod yn fwy arferol i'r claf.
- Gall y Cyflawnydd ddangos y symudiadau angenrheidiol i'r claf trwy ddal ei law allan i'r ochrau mewn ardal sydd wedi'i gorchuddio gan y prism. Pan fydd y claf yn canfod y llaw bydd angen iddo symud ei ben tuag at yr ochr ddall i weld y llaw trwy ganol y lens. Gellir arddangos hyn a'i ymarfer trwy amrywio safle'r llaw yn yr ochrau.
- Dylai'r claf hefyd roi cynnig ar 'daith hyfforddi' cyn gadael y Practis. Dylai hyn sicrhau bod y claf yn deall sut mae'r prismau'n rhoi syniad o wrthrychau ar yr ochr ddall.
- Gellir gosod y lensys un ar y tro er mwyn helpu i addasu os oes angen.

3.11.6 Mae set brawf o Lensys Peli wedi'i chynnwys ym mhecyn offer Golwg Gwan GOCC 3 ac mae'n cynnwys:

- 2 lens Peli
- Cyfarwyddiadau ar gyfer eu gosod
- Cyfarwyddiadau am eu glanhau

- Templed gosod
- Ffrâm cludo plano os oes angen.

3.11.7 Dylid cyflenwi lensys yn uniongyrchol o'r pecyn offer Golwg Gwan a'u nodi ar y Cerdyn Cofnodi Golwg Gwan fel 'cymhorthion wedi'u harchebu'. Bydd hyn yn annog Tîm Golwg Gwan PCGC i anfon lensys Peli newydd ar gyfer y pecyn offer Golwg Gwan.

3.11.8 Mae angen cyfnod prawf o 4 wythnos, ac ar ôl hynny bydd angen i'r claf fynd i apwyntiad Golwg Gwan Dilynol. Os yw'r lensys yn llwyddiannus yna gall y claf gadw'r lensys a'r ffrâm cludo plano os yn berthnasol. Os nad yw'r claf yn dymuno parhau â'r lensys mae angen eu dychwelyd ynghyd â'r ffrâm cludo, os caiff ei ddefnyddio, at Dîm Golwg Gwan PCGC.

3.11.9 Nid oes gan y lensys Peli sy'n cael eu glynu oes hir gan eu bod yn mynd yn fudr yn gyflym a gall amlygiad uwch fioled ddiraddio'r ansawdd optegol. Am y rheswm hwn, argymhellir bod cleifion sy'n defnyddio'r lensys yn cael eu gweld mewn Apwyntiad Golwg Gwan Dilynol bob 6 mis fel y gellir archebu a gosod lensys newydd os oes angen.

## 3.12 Rhagnodi Cymhorthion Golwg Gwan (LVAs)

Mae rhestr o'r holl ddyfeisiau sydd ar gael i'w harchebu gan Wasanaeth Golwg Gwan GOCC 3 i'w gweld yng Nghatalog GOCC 3.

3.12.1 Er nad oes cyfyngiadau ar nifer y cymhorthion golwg gwan a ragnodir, disgwylid mai dim ond mewn achosion eithriadol y byddai mwy na phump o gymhorthion golwg gwan yn cael eu rhagnodi ar gyfer pob asesiad.

3.12.2 Ni ddylid rhagnodi LVAs dyblyg fel mater o drefn ar gyfer cleifion sy'n oedolion.

3.12.3 Dylai rhai dan 19 oed mewn addysg llawn amser gael yr opsiwn o ddwy set o gymhorthion golwg gwan. Un i'w ddefnyddio gartref ac un i'w ddefnyddio yn y lleoliad addysg.

3.12.4 Gellir rhagnodi cymhorthion golwg gwan yn dilyn Asesiad Golwg Gwan ac Apwyntiad Golwg Gwan Dilynol.

3.12.5 Mewn amgylchiadau prin, gellir archebu dyfeisiau nad ydynt yng Nghatalog GOCC 3 ar gyfer claf. I archebu rhywbeth nad yw yn y catalog, dylid gwneud cais ffurfiol ysgrifenedig yn egluro pam fod angen eitem nad yw yn y catalog i'r unigolyn. Dylid anfon hwn at Arweinydd Clinigol Cenedlaethol GOCC i'w adolygu drwy low.vision@wales.nhs.uk. Sylwch, os cymeradwyir cais am ddyfais nad yw yn y catalog, gall gymryd hyd at chwe wythnos i'r ddyfais gyrraedd y claf.

3.12.6 Mewn achosion eithriadol, os oes angen cyngor ar Gyflawnydd ar yr hyn a allai fod yn addas i'r claf, dylai'r Cyflawnydd anfon e-bost at Arweinydd Clinigol Cenedlaethol GOCC drwy low.vision@wales.nhs.uk i ddod o hyd i ddatrysiad priodol i'r claf.

## LENSYS PELI

3.12.7 Mae lensys Peli (3.11) wedi'u cynllunio i helpu cleifion â hemianopia homonymus gan eu bod yn cynnig ffordd i'r claf gynyddu'r maes gweledol ar yr ochr nad yw'n gweld. Dim ond rhai o'r cleifion hynny sydd â hemianopia homonymus, fydd yn addas ar gyfer treialu'r lensys.

3.12.8 Os bydd y claf yn rhoi cynnig arnynt yn ystod yr apwyntiad Golwg Gwan ac yn teimlo'u bod yn ddefnyddiol, rhoddir y lensys i'r claf. Rhaid i'r Cyflawnydd Golwg Gwan gofnodi'n glir bod y claf wedi 'cymryd' y lensys fel bod Tîm Golwg Gwan PCGC yn nodi bod angen lensys newydd ar gyfer y pecyn arddangos o ganlyniad.

## 3.13 Ailgylchu a Dychwelyd Cymhorthion Golwg Gwan

Rhoddir cymhorthion golwg gwan ar fenthyg i'r claf a chaiff y rhai a ddychwelir eu hailgylchu lle bo modd.

Os nad oes angen cymorth golwg gwan bellach ar y claf, dylid ei ddychwelyd i'w Cyflawnydd Golwg Gwan.

3.13.1 Dylid gwaredu Cymhorthion Golwg Gwan sydd wedi'u difrodi na fyddent yn addas i'w hailddefnyddio yn gyfrifol ar lefel y practis. Dylai cyflawnwyr lenwi Ffurflen Dychwelyd neu Ffurflen Amnewid ac anfon y ffurflen at Dîm Golwg Gwan PCGC.

3.13.2 Dylid llenwi Ffurflen Dychwelyd neu Ffurflen Amnewid pan fydd cymhorthion golwg gwan yn cael eu dychwelyd a allai fod yn addas i'w hailgylchu. Dylai'r Practis anfon y teclyn(nau) a'r ffurflen wedi'i chwblhau at y Cyflenwr Golwg Gwan trwy ddefnyddio labeli cyfeiriad rhadbost Golwg Gwan GOCC.

3.13.3 Dylid dychwelyd y cymhorthion golwg gwan cyn gynted â phosibl. Ni ddylid eu storio yn y Practis.

## 3.14 Cymhorthion golwg gwan newydd a rhai sydd heb eu casglu

3.14.1 Os oes angen eitem arall ac nad oes cymhorthion golwg gwan i'w ddychwelyd, gellir anfon y Ffurflen Dychwelyd neu'r Ffurflen Amnewid wedi'i llenwi at Dîm Golwg Gwan PCGC i'w phrosesu.

3.14.2 Os bydd cymorth golwg gwan yn datblygu nam (ac nad ydyw wedi'i ollwng na'i dorri) a'i fod o dan flwydd oed, mae'n bosibl y gellir ei amnewid dan warant y gwneuthurwr heb gost i GIG Cymru. Mae'n bwysig nodi hyn yn glir ar y Ffurflen Dychwelyd neu Ffurflen Amnewid ac anfon yr eitem ddiffygiol yn ôl at y Cyflenwr Golwg Gwan gyda'r ffurflen.

3.14.3 Rhaid dychwelyd cymhorthion golwg gwan heb eu casglu i'r Cyflenwr Golwg Gwan. Rhaid i'r Practis wneud ymdrech resymol i gysylltu â'r claf o leiaf deirgwaith, ac mae'n rhaid nodi hynny ar gofnod y claf. Os nad yw'r claf yn casglu'r cymhorthion golwg gwan cyn pen tri mis, dylid dychwelyd y cymhorthion golwg gwan i'r cyflenwr. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae ar y claf angen y cymhorthion golwg gwan ond nad yw'n gallu eu casglu am reswm dilys, e.e. cyfnod yn yr ysbyty, gellir eu cadw yn y practis am fwy o amser a dylid cofnodi'r rheswm hwnnw ar gofnod y claf.

## 3.15 Hawlio Taliad

3.15.1 Mae'r holl wybodaeth ar y Cerdyn Cofnod GOCC 3 yn bwysig ac felly mae'n rhaid cwblhau pob adran ar gyfer Asesiad Golwg Gwan. Bydd hawliadau'n cael eu dychwelyd yn awtomatig heb eu talu os nad yw'r cardiau cofnod wedi'u cwblhau'n briodol a byddant yn cael eu dychwelyd i'r Cyflawnydd golwg gwan.

3.15.2 Ar gyfer Apwyntiadau Golwg Gwan Dilynol, gall y Cyflawnydd ddefnyddio barn glinigol ynghylch y camau gweithredu sydd eu hangen, felly dim ond yr adrannau priodol o'r Cerdyn Cofnod GOCC 3 sydd angen eu cwblhau.

3.15.3 Rhaid i'r Cyflawnydd Golwg Gwan nodi'n glir ar y Cerdyn Cofnod GOCC 3 a yw'r cyfnod gofal yn Asesiad Golwg Gwan neu'n Apwyntiad Golwg Gwan Dilynol drwy dicio'r blwch priodol.

3.15.4 Mae dyddiadau terfyn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer cyflwyno hawliadau yn berthnasol i'r gwasanaeth hwn.

### ASESIADAU SYMUDOL

3.15.5 Pan fydd yr apwyntiad wedi'i gwblhau mewn lleoliad symudol, er mwyn hawlio'r Ffi Gwasanaeth Symudol, rhaid ticio'r blwch 'hawliad symudol' ar y Cerdyn Cofnod GOCC 3, a sicrhau bod y cerdyn wedi'i anodi'n glir ac yn amlinellu cymhwyster y claf ar gyfer yr asesiad symudol.

3.15.6 Dim ond un ffi symudol y gellir ei hawlio am bob ymweliad â'r claf. Er enghraifft, os yw'r claf yn cael Archwiliad Llygaid GOCC 1 ac Asesiad Golwg Gwan ar yr un diwrnod, rhaid hawlio'r ffi symudol unwaith yn unig.

3.15.7 Bydd cartrefi preswyl yn cael eu hystyried fel un cyfeiriad ac fel un uned llety unigol at ddiben cyfrifo ffioedd y Gwasanaeth Symudol sy'n daladwy. Yn unol â hynny, mae ffi ymweld is yn daladwy mewn perthynas â GOCC a ddarperir i drydydd preswylydd a phreswylydd dilynol yn ystod un ymweliad. Ond lle mae gan breswylwyr mewn tai gwarchod gyfeiriadau post unigol, dylid ystyried y rhain fel ymweliadau unigol a dylai ffi Gwasanaeth Symudol fod yn daladwy ar gyfer pob un.

3.15.8 Pan fo Asesiad Golwg Gwan neu Apwyntiad Golwg Gwan Dilynol GOCC 3 yn cael ei gynnal mewn lleoliad symudol, rhaid nodi hynny ar y cerdyn cofnod Golwg Gwan, hyd yn oed os nad yw'r ffi symudol yn cael ei hawlio, e.e. pan fydd y ffi symudol yn cael ei hawlio ar gyfer Archwiliad Llygaid GOCC 1 o'r un claf ar yr un diwrnod. Mae'n rhaid i'r cofnod nodi a yw'r ffi symudol uwch (preswylydd cyntaf neu ail breswylydd mewn cyfeiriad) neu'r ffi is (trydydd preswylydd neu breswylydd dilynol mewn cyfeiriad) yn cael ei hawlio.

# ADRAN 2: Tystysgrif Nam ar y Golwg GOCC 3

## 3.16 Ardystiad Nam ar y Golwg GOCC 3

3.16.1 Mae ardystiad yn rhagofyniad ar gyfer cofrestru amhariad ar y golwg. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol greu a chynnal cofrestr o bobl sydd yn breswylwyr arferol yn ardal yr awdurdod lleol ac sydd ag amhariad ar eu golwg, amhariad ar eu clyw neu ag amhariad ar eu golwg a'u clyw, sydd, gyda'i gilydd, yn cael effaith sylweddol ar eu bywydau o ddydd i ddydd.

3.16.2 Mae cofrestru yn sicrhau mynediad at wasanaethau a chymorth sydd â'r nod o gynnal annibyniaeth unigolyn, yn cynnwys yr hyn a gynigir gan Swyddogion Adsefydlu ac Arbenigwyr Adsefydlu Golwg (VRS) (a elwid gynt yn Swyddogion Adsefydlu ar gyfer Pobl ag Amhariad ar y Golwg - ROVIs).

3.16.3 Mae gan Dystysgrif Nam ar y Golwg Cymru (CVIW) swyddogaethau ychwanegol hefyd. Mae'n caniatáu casglu gwybodaeth epidemiolegol am ddigwyddedd ac achosion Amhariadau ar y Golwg ardystiadwy yn y DU. Yng Nghymru, defnyddir CVIW i nodi pa mor gyffredin yw Amhariad ar y Golwg Ardystiadwy ac fe'i cydnabyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fel tystiolaeth feddygol o Amhariad ar y Golwg.

## 3.17 Meini Prawf Cymhwysedd Ardystio Cleifion

Dylai perfformwyr gyfeirio at y nodiadau cyfarwyddyd Ardystiad Nam ar y Golwg wrth benderfynu a yw claf yn gymwys i gael ardystiad.

### CANLLAWIAU AR GYFER POBL AG AMHARIAD DIFRIFOL AR EU GOLWG (SSI)

3.17.1 Canllawiau SSI

- VA islaw 3/60 Snellen
- VA yn well na 3/60 ond yn is na 6/60 Snellen gyda maes gweledol wedi crebachu
- VA 6/60 Snellen neu uwch gyda maes golwg wedi crebachu yn enwedig os yw'r crebachiad yn rhan isaf y maes.

### CANLLAWIAU AR GYFER AMHARIADAU DIFRIFOL AR Y GOLWG (SI)

3.17.2 Canllawiau SI

- VA 3/60 i 6/60 Snellen gyda maes llawn
- VA hyd at 6/24 Snellen gyda chrebachiad cymedrol yn y maes, anrhyloywder yn y cyfryngau neu affacia

- VA o 6/18 Snellen neu hyd yn oed yn well os oes diffyg difrifol, er enghraifft hemianopia, neu os oes crebachiad amlwg yn y maes gweledol, er enghraifft retinitis pigmentosa neu glawcoma.

## 3.18 Ardystio mewn Gofal Sylfaenol

Gall Optometryddion sydd wedi'u rhestru i ddarparu **GOCC 1, 2 a 3 yn gynhwysol** gyflawni Ardystiad Nam ar y Golwg mewn Gofal Sylfaenol.

3.18.1 Mae optometryddion sydd wedi'u rhestru i ddarparu GOCC 1, 2 a 3 yn gallu cynnig ardystiad i gleifion o fewn gofal sylfaenol yn yr amgylchiadau canlynol

- Rhaid i'r claf fod yn 16 oed neu'n hŷn; a
- Rhaid i achos yr Amhariad ar y Golwg fod yn barhaol; a
- Ni ddylai'r claf fod yn cael triniaeth ar hyn o bryd a allai arwain at olwg yn dychwelyd i lefelau nad ydynt yn gymwys i gael eu hardystio.

3.18.2 Rhaid atgyfeirio cleifion i ofal eilaidd i gael ardystiad pan;

- Mae angen gwasanaethau sy'n seiliedig ar ysbytai, e.e. technegau electrodiagnostig, i fesur golwg; a
- Mae diagnosis ansicr yn rhoi ansicrwydd bod unrhyw amhariad ar y golwg yn barhaol; a/neu
- Mae posibilrwydd o wella golwg drwy:
    - twf / datblygiad yn ystod plentyndod; neu
    - triniaeth feddygol neu lawfeddygol.

## 3.19 Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Llwybr Ardystio Clinigol

Ffurflen Ryngweithiol CVIW (PDF)
Nodiadau Esboniadol CVIW
Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2023/10: CVIW mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol
Gwybodaeth i Gleifion CVIW

### RHAN A: ADNABOD CLEIFION CYMWYS

3.19.1 Nodir cymhwysedd ar gyfer ardystiad / newid cymhwysedd (SI i SSI) mewn Archwiliad Llygaid GOCC 1, archwiliad band 1 GOCC 2 a arweiniodd at roi presgripsiwn neu Brawf Golwg Preifat, rhaid hysbysu claf o'r cymhwysedd ar gyfer ardystiad a chael ei ardystio gan y clinigwr priodol yn y lleoliad gofal sylfaenol neu eilaidd. Rhaid i'r claf fod yn sicr bod ardystiad ym mhob

lleoliad yn gyfwerth.

- Rhaid darparu gwybodaeth hygyrch berthnasol i gleifion ynghylch ardystiad ym mhob achos, p'un a yw atgyfeiriad am ardystiad yn cael ei dderbyn ai peidio.
- Ar ôl cael cydsyniad y claf, rhaid gwneud atgyfeiriad perthnasol at weithiwr proffesiynol sy'n ardystio.
- Rhaid hefyd cynnig atgyfeiriad ar gyfer Asesiad Golwg Gwan GOCC 3 i'r claf, gyda gwybodaeth hygyrch am y gwasanaeth.

**SYLWER** Nid yw Asesiad Golwg Gwan GOCC 3 yn orfodol i gael mynediad at ardystiad gofal sylfaenol.

## RHAN B: GWNEUD ARDYSTIAD MEWN GOFAL SYLFAENOL *(Optometryddion Achrededig GOCC 1, 2 a 3)*

3.19.2 Rhaid i'r apwyntiad ardystio gynnwys:

- Sgwrs am fanteision ardystio
- Esboniad o'r broses ardystio a chofrestru a rhannu gwybodaeth
- Rhaid i'r Optometrydd GOCC 123 sy'n ardystio fod yn sicr bod y claf yn deall yn llawn beth fydd yn digwydd ar ôl cwblhau'r CVI, a gyda phwy y bydd ei wybodaeth yn cael ei rhannu.
- Cydsyniad llafar ynghylch a hoffai'r claf symud ymlaen â'r broses
- Os yw'r claf yn dymuno symud ymlaen, yna dylai'r Optometrydd gyda'r achrediad GOCC 123 deuol gynnal archwiliad iechyd llygaid er mwyn cadarnhau prif achos yr amhariad ar y golwg yn cynnwys;
  - Mesur Craffter Golwg mewn un llygad ac yn y ddwy lygad
  - Archwiliad lamp hollt o'r segment blaen a'r lens
  - Asesiad o ddyfnder y siambr flaen (canolog ac ymylol, yr olaf fel dirprwy ar gyfer lled ongl)
  - Tonometreg
  - Archwiliad dwyochrog o'r ffwndws wedi'i ymledu trwy ddefnyddio lamp hollt a lens Volk lle bo modd (oni bai y ceir golwg wych heb ymledu, ac os felly rhaid nodi hynny ar y cerdyn cofnod)
  - Lle mae cymhwysedd yn seiliedig ar feysydd gweledol, dylid darparu archwiliad maes gweledol cysylltiedig diweddar y mae allbrint maes mesuradwy ar gael ohono, neu ei gyflawni os nad yw ar gael
  - Gweithdrefnau eraill yn ôl disgresiwn yr Optometrydd archwilio neu'r ymarferydd Meddygol Offthalmig (OMP)
- Rhaid llenwi'r ffurflen Tystysgrif Nam ar y Golwg (CVIW) yn unol â'r nodiadau esboniadol.
- Rhaid rhoi Taflen Gwybodaeth i Gleifion CVIW i'r claf gyda'i gopi o'r ffurflen CVIW
- Ar ôl llenwi'r ffurflen CVIW, dylid ei hanfon at:

i. PCGC
ii. Y claf
iii. Awdurdod Lleol y claf
iv. Meddyg Teulu'r claf

a chadw copi yng nghofnodion y claf.

- Pan gynhelir archwiliad ociwlar CVIW ond bod y claf yn penderfynu peidio â pharhau â'r ardystiad, dylid llenwi'r ffurflen hawlio archwiliad llygaid CVIW a'i hanfon at PCGC.

# 3.20 Hawlio Taliad

3.20.1 Gwneir taliadau yn unol â dyddiadau terfyn taliadau GOCC.

## MAE'R CLAF YN CAEL EI ARDYSTIO GAN OPTOMETRYDD

- Dylid gwneud pum copi o'r ffurflen CVIW (gweler y tabl isod am esboniad o'r hyn y dylid ei wneud gyda phob copi)

| Copi | Camau i'w cymryd: |
|---|---|
| 1 | Anfon copi i'r Swyddfa Ardystio<br>CVI DST<br>Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru<br>Llawr Gwaelod<br>Tŷ Cwmbrân<br>Ystad Parc Mamhilad<br>PONT-Y-PŴL<br>NP4 0XS<br>Sylwch fod hwn yn gyfeiriad gwahanol i'r cyfeiriad GOCC<br>Gellir anfon copïau wedi'u sganio o gyfeiriad e-bost diogel i: nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk) |
| 2 | Copi at feddyg teulu'r claf drwy'r post neu e-bost y GIG |
| 3 | Ei roi i'r claf |
| 4 | Anfon copi at yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae'r claf yn byw |
| 5 | Dylid cadw copi yng nghofnodion y claf |

## ASESIAD ARDYSTIO ARCHWILIAD OCIWLAR *(Nid yw'n arwain at ardystiad claf gan Optometrydd)*

- Rhaid i optometrydd gwblhau hawliad ardystiad archwiliad ociwlar a'i anfon at:

CVI DST
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Llawr Gwaelod
Tŷ Cwmbrân
Ystad Parc Mamhilad
PONT-Y-PŴL
NP4 0XS

Noder bod hwn yn gyfeiriad gwahanol i'r cyfeiriad GOCC.

Gellir anfon copïau wedi'u sganio o e-bost diogel i:
nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk